

Crynodeb o argymhellion yr Athro Stuart Cole

Gwnaethom ni gomisiynu'r Athro Stuart Cole, Prifysgol De Cymru, i gynnal 'Adolygiad Lefel Uchel' byr o lwybr T3 TrawsCymru sy'n rhedeg rhwng Wrecsam a'r Bermo. Mae'r Athro Cole wedi gorffen ei adolygiad.

Cwmpas yr Adolygiad

Fel rhan o'i gomisiwn, gofynnnon ni'n benodol i'r Athro Stuart Cole i:

- Ystyried rhinweddau strategol bras cynnal gwasanaeth T3 TrawsCymru uniongyrchol newydd rhwng Wrecsam ac Aberystwyth (yn hytrach na'r Bermo);
- Adolygu a chynnig gwelliannau cost effeithiol pellach posib i wasanaeth bws pell T3 TrawsCymru er mwyn denu mwy o deithwyr;
- Adolygu a chynnig gwelliannau pellach i annog mwy o deithwyr i ddefnyddio gwasanaethau bws T3 TrawsCymru i gysylltu â gwasanaethau bws eraill a gwasanaethau'r rheilffyrdd yng Ngorsaf Rhiwabon;
- Adolygu'r mesurau y gellid eu cymryd i wella'r cysylltiadau bws yng Nghorwen â chanolfannau eraill yn Nyffryn Clwyd; a
- Rhoi cyngor ar sut i farchnata'r llwybr yn well a gwella'r wybodaeth a ddarperir amdano.

Crynodeb o brif argymhellion yr Athro Cole

Mae'r Athro Cole wedi edrych ar y meysydd uchod a chynnig nifer o gynlluniau. Mae wedi siarad ag awdurdodau lleol a chael eu cytundeb ar sail yr amserlenni canlynol:

- *Tymor Byr* - gwelliannau y gellid eu gwneud yn y 12 mis nesaf;
- *Tymor Canolig* - gwelliannau y gellid eu gwneud o fewn 2 flynedd; a
- *Tymor Hwyr* - gwelliannau y gellid eu gwneud mewn pryd ar gyfer dechrau'r contract T3 nesaf yn 2022.

O ran y gwelliannau tymor byr, mae argymhellion yr Athro Cole yn canolbwyntio ar gynlluniau marchnata a threfnu tocynnau. Credir eu bod i gyd yn bosib gan ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael. Mae wedi rhoi sylw arbennig i'r angen am gynllun i farchnata'r llwybr ar y cyd â darparwyr twristiaeth allweddol.

Tymor Byr - y 12 mis nesaf

- Ailddechrau teithiau gyda'r hwyr i Orsaf Rhiwabon;
- Datblygu a chynnal pecyn tocynnau a hyrwyddo ar y cyd â darparwyr twristiaeth yng Nghoridor Dyfrdwy;
- Cyflwyno tocyn amlaith i deithwyr rheolaidd (T3, T2, lleol Lloyd // ychwanegiad at Docyn Gogledd TC // ychwanegiad at docyn dydd rhwydwaith TC)

- Gofalu bod yr wybodaeth gywir ar bob arhosfan bysiau ar goridor y T3;
- Rhoi panel ar ffenest flaen bysiau nad ydyn nhw yn lliwiau TC;
- Gofalu bod brand TrawsCymru ar/wrth ochr brand y sir ar bob amserlen.
- Marchnata'r gwasanaeth T3 yn well yng Ngorsaf Fysiau Wreccsam; a
- Cryfhau'r gwasanaethau byr rhwng y Bermo a Dolgellau;
- Sicrhau bod yna gymaint o gysylltiadau â phosib rhwng y T3 a'r T10 arfaethedig; a
- Sicrhau bod gwasanaethau X27 ac X28 Lloyds yn cael eu hintegreiddio'n well â gwasanaethau T2 a T3 er mwyn gwella'r cysylltiadau â Dolgellau.

Tymor Canolig - rhwng 12 a 24 mis

- Trafod â chwmni'r fasnachfaint newydd sut i wella'r cyfnewidfeydd bws a thrên yng ngorsafoedd Rhiwabon a'r Bermo;
- Gwella'r arhosfannau bws ar hyd y llwybr a'u halinio â 'Ffordd Cymru' Croeso Cymru;
- Comisiynu astudiaeth fanylach o'r cyfnewidfeydd posib ar hyd y coridor rhwng y T3 a'r T2, gwasanaethau lleol, a gwasanaethau trên yng Ngorsaf Rhiwabon Hefyd cyfnewidfa i / o'r T2 a chysylltiadau'r T1 / T5 â'r rhwydwaith;
- Gweithio gyda Chyngor Gwynedd i baratoi cynnig manwl ar gyfer gwella cyfleusterau'r gyfnewidfa yn Nolgellau;
- Cryfhau ymhellach yr hyrwyddiadau ar y cyd i farchnata twristiaeth ar hyd y coridor. Gallai hynny gynnwys tocynnau ar y cyd ag e.e. hen reilffyrdd, traphont Pontcysyllte a thâl mynediad rhatach i atyniadau;
- Paratoi astudiaeth ddichonoldeb fanwl i edrych ar gostau a manteision rhedeg cysylltiadau cyflym ychwanegol fyddai'n osgoi'r pentrefi rhwng y Bala a Chorwen; a
- Trwy holi teithwyr, pennu'r amserau cysylltu byrraf fyddai'n bosib rhwng Dolgellau, Rhiwabon, Wreccsam (bysiau a threnau) ac Aberystwyth i benderfynu pa gyfnewidfeydd ddylai gael blaenoriaeth.

Tymor Hwyl - dros 24 mis hyd at yr aildendro yn 2022

- Edrych ar ymarferoldeb cyflwyno gwasanaeth Bwcabus newydd i wasanaethu pentrefi Dyffryn Dyfrdwy yn well;
- Edrych ar ymarferoldeb darparu gwasanaethau ar wahân i ysgolion (lle bo'r myfyrwyr yn defnyddio'r T3 ar hyn o bryd);
- Gan ddibynnu ar ymarferoldeb y cynnig ar ddarparu cysylltiadau bws cyflym rhwng y Bala a Chorwen, ystyried cyflwyno coetsys teithiau hir ar gyfer y

teithiau hyn rhwng y Bermo a Wreccsam, a bysiau llawr isel ar y llwybr arafach confensiynol trwy'r pentrefi.

- Cyflwyno trefn symlach ar gyfer prynu tocynnau ar gyfer gwasanaethau TrawsCymru;
- Estyn y gwasanaeth T3 i orsaf Wreccsam Gyffredinol - gan ddibynnu ar wella'r manau troi ar gyfer bysiau; ac
- Ystyried ymarferoldeb darparu Bysiau Beics arbenigol fel rhan o'r gwasanaeth ar benwythnosau a gwyliau'r haf. Byddai hynny'n cefnogi'r agenda Teithiau Llesol a gellid defnyddio cerbydau dros ben contractau'r T4 a T9 a fydd yn dod i ben o fewn y 12 mis nesaf.